



Cysylltiadau a Chipolwg ar Yrfaeodd

## Cwestiynau Cyffredin am Fentoriaid

### Beth mae'n ei olygu i fod yn fentor?

Caiff y cynllun eFentora ei redeg drwy lwyfan ar-lein sy'n cynnig cyfle i fyfyrwyr a graddedigion diweddar gael eu mentora gan raddedigion mwy profiadol a gweithwyr proffesiynol. Mae bod yn fentor yn gyfle i helpu rhywun trwy rannu eich profiadau a'ch arbenigedd. Chi sy'n dewis beth yw natur benodol y berthynas a gall amrywio o anfon negeseuon at eich gilydd drwy'r llwyfan, cymryd galwad ffôn neu eu gwahodd i ddod i weld ble rydych yn gweithio. Mae'n brofiad gwobrwyol a all helpu i godi dyheadau a'r canlyniad yw twf personol i'r mentor yn ogystal â'r myfyriwr.

### Beth yw'r lefel o ymroddiad?

Chi sy'n dewis faint yn union yr ydych chi'n teimlo'n gyfforddus i'w gynnig drwy'r gwasanaeth hwn. Wrth wirfoddoli fel mentor byddwch yn dewis o restr o 'wasanaethau' mentor sy'n amrywio o gymryd rhai cwestiynau drwy e-bost i gynnig cyfleoedd cysgodi/profiad gwaith. Chi sydd â rheolaeth, a gallwch addasu'r gwasanaethau yr ydych yn eu cynnig ar unrhyw adeg. ***DS Nid ydym yn paru myfyrwyr â mentoriaid, y myfyrwyr sy'n cofrestru sy'n penderfynu pa fentoriaid y maent am gysylltu â hwy.***

### Sut mae dod yn fentor?

I fod yn fentor mae angen cofrestru ag eFentora yn y dolenni isod ac yna troi eich proffil mentor ymlaen er mwyn i fyfyrwyr weld eich proffil. Gallwch wneud hyn trwy glicio ar y botwm 'Ysgogi Proffil Mentor' ar frig eich tudalen proffil Mentor, sydd ar gael trwy glicio ar y dewis 'Mentor' ar frig eich Proffil Personol. Byddwch yn mynd trwy broses sydyn o osod mentor, ac ar ôl hynny bydd modd chwilio amdanoch fel mentor ar y llwyfan. Gallwch hefyd roi dolen i'ch cyfrif LinkedIn ar eich proffil mentor sy'n gwneud y broses yn gyflym a hawdd.

### Sut alla i helpu myfyrwyr / graddedigion newydd fel mentor?

Mae ymchwil yn dangos bod graddedigion o ***gefndir rheolaidd a llaw, y rhai o grwpiau ethnig lleiafrifol, y rhai nad oedd gan eu rhiant radd a myfyrwyr benywaidd*** yn llai tebygol o gael gwaith ar lefel raddedig ac yn llai cadarnhaol am eu rhagolygon gyrfaol tymor hir. Os

ydych chi'n teimlo y gallech fod yn fodel rôl i fyfyrwyr o'r cefndiroedd hyn, nodwch hynny'n glir ar eich proffil. Mae cael eu mentora yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gael cipolwg a mynediad i yrfaedd yr oeddent yn teimlo oedd y tu hwnt i'w cyrraedd, yn ddelfrydol bydd y profiad mentora yn eu hannog i godi eu ffocws a'u dyheadau.

### **Faint o fyfyrwyr / graddedigion ddylwn i eu mentora?**

Gall mentor benderfynu sawl myfyriwr yr hoffent eu derbyn. I'r rhai sy'n newydd i fentora, efallai y bydd yn briodol ymgysylltu ag un neu ddau i ddechrau, monitro eich cynnydd â hwy, ac yna mentora mwy o fyfyrwyr pan fyddwch yn teimlo'n gyfforddus i wneud hynny.

### **A oes raid i mi dderbyn cais rhywun am fentor?**

Mae'r llwyfan yn rhoi cyfle i'r mentor dderbyn neu wrthod myfyriwr, gan ddibynnu ar yr wybodaeth a roddir gan y myfyriwr. Os nad oes gwybodaeth ddigonol yn cael ei rhoi i ddechrau, gallwch wneud cais am fwy cyn gwneud penderfyniad.

### **A ddylwn i gynnwys gwahoddiad i'm gweithle neu brofiad gwaith?**

Eich dewis chi yw hyn, a gallwch benderfynu cynnig profiad gwaith i rywun yr oeddech yn eu mentora o'r blaen drwy e-bost neu dros y ffôn. Nid oes rheolau penodol ynghylch sut y dylai'r berthynas ddatblygu, a bydd pob mentoriaeth yn amrywio.

I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun eFentora cysylltwch â [careers@aber.ac.uk](mailto:careers@aber.ac.uk)

Os ydych chi'n teimlo'n barod i gofrestru i fod yn fentor, ewch i [www.aber.aluminate.net/](http://www.aber.aluminate.net/)